***Polisi Gwisg Ysgol***
***School Uniform Policy***

***Ysgol Tryfan***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**
***Signed on behalf of the Chair of Governors:***

**Dyddiad Cymeradwyo:** ***Gorffennaf 2026***
***Date of Approval:***

**Dyddiad Adolygu:** **Gorffennaf 2027**

## 1. Cyflwyniad

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael ei hystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at gydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Rydym yn dymuno gweld y dysgwyr â logo'r ysgol ar eu siwmper, crys polo, a gwisg Addysg Gorfforol ond nid yw hyn yn orfodol.

Bydd yr ysgol hefyd yn hwyluso cyfleon i rieni brynu dillad ysgol ail-law (sydd â logo'r ysgol arnynt) yn barhaus trwy gysylltu â'r ysgol.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

## 2. Y Wisg Ysgol

**Blwyddyn 7 - 11**

Pob plentyn:

- trowsus taclus du (dim trowsus tracwisg na throwsus cerdded/gwaith) / sgert ddu o hyd briodol / leggins trwchus du heb logo
- crys polo coch ysgol
- siwmper werdd ysgol
- esgidiau neu 'trainers' plaen du - dim Converse (ac eithrio Converse du plaen) nac esgidiau gwaith (blaenau dur)

**Blwyddyn 12 - 13**

Pob plentyn:

- trowsus taclus du (dim trowsus tracwisg na throwsus cerdded/gwaith) / sgert ddu o hyd briodol / leggins trwchus du heb logo
- crys gwyn
- siwmper ddu ysgol
- tei ysgol

- esgidiau neu 'trainers' plaen du - dim Converse (ac eithrio Converse du plaen) nac esgidiau gwaith (blaenau dur)

Yn ystod tymor yr haf hyd at hanner tymor yr hydref, a thu allan i wersi Addysg Gorfforol, gall disgyblion wisgo trowsus byr du plaen, siorts ysgol neu sgort pe dymunir. **Ni chaniateir y siorts byr Addysg Gorfforol o gwmpas yr ysgol, oni bai am yn y wers Addysg Gorfforol.**

**Cyffredinol am wisg ysgol**

Nid ydym yn caniatau:

- sgertiau byr o hyd amhriodol
- trowsus tracwisg
- trowsus cerdded/gwaith
- trowsus wedi ei rwygo

**Addysg Gorfforol**

Disgwylir i bob disgybl fynychu gwersi Addysg Gorfforol yn gwisgo crys T a siorts / sgort (neu un o'r eitemau cyfatebol eraill yn hytrach na siorts), a trainers addas. Mae'r eitemau ychwanegol o'r wisg addysg gorfforol yn opsiynol.

## 3. Enwau ar ddillad / dillad coll

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a trainers addysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

## 4. Esgidiau

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du / trainers plaen du (dim lliw arall) i'r ysgol. Credwn fod hyn yn gwneud i'r disgyblion edrych yn daclus ar gyfer mynychu'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas i chwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae yr ysgol (tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel ('*high heels'*).

## 5. Gwalltiau, addurniadau, ewinedd a cholur

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o'r wisg ysgol. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r egwyddor hon. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Dim ond 'studs' sydd yn cael eu caniatau o ran clustlysau oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Rydym yn caniatau i ddisgyblion ddefnyddio colur sydd yn edrych yn naturiol. Dylid sicrhau nad ydy ewinedd yn achosi perygl o ran iechyd a diogelwch. Disgwylir i'r ewinedd fod o hyd rhesymol, ac yn addas ar gyfer gwersi Technoleg Bwyd ac Addysg Gorfforol.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.